Meeting different people. We had a lot of people from abroad and so we were interested to know where they came from and why they'd come to Llanberis, and how they'd come to know about the museum.

We'd have trips down to other museums in Cardiff, to Big Pit ... various places I'd never have got to know about if I hadn't visited them through the museum, and I've returned to them with my family and told my friends about them. When I go down to Cardiff now I go to see some of the people I've come to know in Big Pit and St Fagan's; I've made a lot more friends as a result.

What was the busiest time for the café?

From Easter to November, and after that during the Christmas activities; January was quiet, then there was half-term and the model trains vent and Easter again!

Do you think it's important for the museum to have a café?

Wherever you go everyone aims for the café before going around or after being around to enjoy a cup of tea and a cake!

What's your favourite thing or place in the museum?

The Water Wheel and the Foundry, because of the family connection


more than anything; I enjoy going around there and looking at the patterns and so on.

What are your fondest memories about your time at the museum?

The café was in an excellent location in the museum itself. When I started they were building the houses and that was quite an experience, seeing how they moved the houses from Tanygrisiau to Llanberis, and the numbers on the stones and the builders building by numbers. That was a experience.

They'd hold moulding sessions in the Foundry during the Easter holidays and public holidays and that was of interest to me because my grandfather and uncle had worked there as moulders.

All the staff were pleasant - we were like one small family here. It was a wonderful place to work in.



Rosina Worth

Rheolwraig y siop 1995 - 2009

Gofalu am y siop o'n i. Archebu bob dim a cofnodi'r holl ymwelwyr oedd yn dod mewn drwy'r drws a siarad efo nhw. Roedd hynny yn waith diddorol iawn.

Sut brofiad oedd bod yn un o'r merched cyntaf i weithio yn yr amgueddfa?

O'dd o'n brofiad braf ond eto mi oedd o'n od hefyd, arfer efo'r hen iard fel o'ddai nhw'n galw fo, dynion oedd wedi bod yna erioed.

Dwi'm yn gwybod be 'sa nhw'n ddeud gweld merched yno ond erbyn hyn fyswn i'n deud bod hi'n gyfartal, bod 'na gymaint o ferched â sydd yna o ddynion bron.

Pa newidiadau fu yno yn ystod eich cyfnod yn gweithio yn yr amgueddfa?

Ddarur' lle ddatblygu lot, ac roedd hynny'n beth da ofnadwy, gweld o'n datblygu. Gafon ni arian loteri a cael g'neud lot efo hynny. Gafon ni gaffi yna, gafon ni siop newydd... mae bob dim fel'a yn cyfri ac yn ychwanegu at beth



oedd yno felly. Roeddai ni'n medru cynnig gymaint mwy i ymwelwyr.

Beth yw eich hoff atgof?

Y cysylltiad efo'r ymwelwyr, roedd hynny'n bwysig iawn dwi'n meddwl, ro'ddai ni isio gwneud iddyn nhw deimlo'n gartrefol a rhoi 'chydig o hanes y diwydiant iddyn nhw. Roeddai nhw wrth eu bodda' yn dod yn ôl i'r siop ar eu ffordd allan a deud gymaint oeddai nhw 'di mwynhau ac am ddod yn ôl efo ffrindiau a theulu. Mi oedd rhai yn dod yn ôl o flwyddyn i flwyddyn, ella dwy waith dair y flwyddyn. O'dd hynna'n beth braf iawn.

Shop Manager 1995 - 2009

My job was to look after the shop. I ordered all the goods and recorded every visitor which came through the door and talked to them, which was very interesting work.

Describe the experience of being one of the first women to work in the museum

It was a good but also a strange experience - in the old yard as they used to call it, there had only ever been men. I don't know what they would have said on seeing women there but I'd say the numbers were even by now - there are nearly as many women as men.

What changes have you seen during your time at the museum?

The place developed a lot, and it was great to see it developing. We received Lottery funding and we were able to do a lot with that which I think was a good thing. We built a café and a new shop... things like that made a

difference and complemented what was already there. We were able to offer so much more to visitors.

What is your favourite memory?

Contact with the visitors, I think that was very important, and we wanted to make them feel at home and tell them about some of the industry's history. They loved calling in at the shop on their way out and saying how they'd enjoyed and would return with family and friends. Some returned every year, even twice or three times a year. That was nice to hear.



Henlwen Roberts

Rheolydd Dehongli 2005 - 2010

Yr oeddwn wrth fy modd hefo'r prysurdeb ar ambell gyfnod - ymweliadau ysgolion, digwyddiadau arbennig, cyflawni prosiectau. Uchafbwynt fy amser yn yr amgueddfa oedd pan oedd staff blaen tŷ yn derbyn canmoliaeth gan y cyhoedd am eu gwaith, cefais



Dilys Jones

Prif Ofalydd 1996 - 2004

Fi oedd yr unig ddynas allan ar y safle. Roedd y gŵr yn gofyn i mi diwrnod o'r blaen oni'n ffendio fo'n anodd gweithio efo dynion, deuthyn nhw be i ddeud a na, don i'm yn ffendio fo'n od. Wel oedd gin i un peth yn fy meddwl - dwi'm yn gofyn i neb neud dim byd os dwi'm yn fodlon neud o fy hun, oeddai nhw'n g'neud be o'n isio, odd na'm problem.

Chief Museum Assistant 1996 - 2004

I was the only woman out on site. My husband asked me the other day whether I found it difficult working with men, telling them what to do, but no, I didn't find it odd. Well, I had one thought in my mind - I'm not going to ask anyone to do something if I'm not prepared to do it myself. They did what I wanted, there were never any problems.

bleser personol trwy geisio llwyddo i sicrhau lefel uchel o fodlonrwydd y cyhoedd o bryd i'w gilydd, a cheisio codi safonau cyffredinol yr amgueddfa.

Interpretation Manager 2005 - 2010

I really enjoyed the busy periods - school visits, special events, completion of projects. When front-of-house staff were praised by the public for their work. What gave me personal pleasure was trying to reach the highest standard of visitor satisfaction and raising the general standard of the museum.

Am Stori!

Ddechreuais i weithio fel Swyddog Hyrwyddo'r amgueddfa ym 1994. Rydw i'n meddwl iddyn nhw alw'r swydd yn Swyddog Hyrwyddo er mwyn iddi gwmpasu popeth – o farchnata a'r wasgi i ddigwyddiadau a dehongli.

Pan ddechreuais i dim ond fi a chwech o ddynion oedd yn gweithio yma. Roedd Dafydd Roberts, Nia Hughes, Tudur Jones, Maldwyn Jones, Dilys Jones ac eraill i gyd wedi'u lleoli yn y Mynydd Gwefru, neu Power of Wales fel y câi ei alw bryd hynny. Roeddwn



i'n gweithio i'r safle yna hefyd, yn ogystal ag Amgueddfa Rufeinig Segontium yng Nghaernarfon – roedd y tri safle'n dod o dan faner Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Ond roedd fy swyddfa yn Amgueddfa Lechi Cymru, felly dyna oedd fy nghartre', a dyna sut oeddwn i'n meddwl amdani a dweud y gwir!

Rwy'n gyfrifol am unrhyw beth sydd yn denu pobol i'r amgueddfa – o'r arwyddion ar y lôn sydd yn dangos y ffordd yma i'r hysbyseb neu'r stori yn y papur i'r map sydd yn dangos pa ffordd i fynd o amgylch y safle! Mae'n swydd hyfryd a rwy'n lwcus iawn fy mod wedi cael gweithio yma trwy gyfnod mor gyffrous o safbwynt datblygiadau a digwyddiadau.

Mae gen i nifer iawn o hoff bethau yma yn yr amgueddfa. Mae ein crefftwyr ni yn gwneud pethau anhygoel o ddreigiau llechi i telynu a ffaniau. Un o fy hoff bethau un ydy'r plât llechen gafodd ei wneud gan y diweddar Mr Bill Rice ar gyfer y gefeillio ag Amgueddfa Slate Valley yn Granville, Talaith Efrog Newydd yn 2007. Mae'n cynnwys llechfaen o saith lliw gwahanol - mae'n dangos daeareg ac amrywiaeth anhygoel y llechfaen, gan gynnwys y gwyrdd, llwyd a glas lleol i ni ond hefyd coch trawiadol llechfaen America. Mae hefyd yn cynrychioli'r gefeillio, oedd yn uchafbwynt i mi – rydw

i'n dal i gredu ei bod hi'n wych fod gennym ni gysylltiadau rhyngwladol efo rhannau eraill o'r byd ac amgueddfeydd eraill.

Mae'r amgueddfa wedi newid cryn dipyn ers i mi ddechrau gweithio yma. Fe gawson ni 30,000 o ymwelwyr ym 1995, ond rwan rydyn ni'n denu 140,000! Roeddwn ni'n arfer codi tâl mynediad, ond rwan rydan ni'n rhad ac am ddim! Roeddwn ni'n arfer cau'n gyfan gwbl yn ystod y gaeaf, ond rydan ni bellach ar agor

ar hyd y flwyddyn! Roedd gen i un ffotograff i hyrwyddo'r safle ar y dechrau, ond rwan mae gen i filoedd! Doedd ganddon ni ddim digwyddiadau ym 1994, ond rwan rydyn ni'n cynnal naw neu ddeg o ddigwyddiadau mawr bob blwyddyn, yn amrywio o'r sioe trenau bach ym mis Chwefror i haf o liwio llechi ac, wrth gwrs, Calan Gaeaf a Siôn Corn yn y gaeaf. Bydd torfeydd o bobol yn mwynhau'r arddangosiadau hollti a naddu llechi, neu'n



Julie Williams
Swyddog Marchnata

gweld UNA yn codi stêm, neu'n dysgu am bren yng nghwmni Pred y saer coed. Mae'n grêt meddwl fod gan blant ar hyd a lled y byd lechi addurnedig ar ôl dod i un o'n gweithdai crefft ni!

Ac mae'r adeilad ei hun wedi sefyll yn gadarn yn ystod yr holl ddatblygiadau hyn! Mae mor drawiadol! Fel Swyddog Marchnata mae'n gleddyf deufin: mae'n adeilad gwreiddiol ysblennydd ac yn hyn o beth mae'n gwneud hanner y gwaith drosoch chi gan ei fod yn annog pobl i ddarganfod a dysgu mwy, ond mae hefyd yn adeilad mawreddog a moel ei olwg braidd felly mae'n dipyn o gamp egluro i bobol beth ydy o a beth sydd y tu mewn iddo. Ond ar ôl i chi ddod i mewn – wel, am stori! Rydw i wedi helpu i ddathlu pen-blwydd yr amgueddfa yn 25, 30 a rwan 40 oed. Rydw i'n lwcus iawn i weithio yn y fath le a braint arbennig fu cael bod yn rhan o'i hanes, ac rydw i'n dymuno'n dda iddi at y dyfodol!

What a Story!

I started working as Promotions Officer at the museum in 1994. I think they called it Promotions Officer because it covers everything – from marketing and press to events and interpretation, all of which I do on a daily basis.

When I started working here it was just me and six men. Dafydd Roberts, Nia Hughes, Tudur Jones, Maldwyn Jones and Dilys Jones and others were all based at what was then the Power of Wales, now the Electric Mountain. It was also my job to work for that site as well as Segontium Roman Museum in Caernarfon, all three of which came under the banner of National Museum Wales, but I was based at the Welsh Slate Museum so that was my home, and that's how I thought of it really!

I'm responsible for anything that brings people into the museum from the sign that they see on the road pointing them in the right direction to the advert or story in the newspaper to the map showing them around the site! It's a lovely job and I have been very lucky to have worked here through so many fantastic developments and activities.

I have many favourite objects in the museum. Our craftsmen here today make some wonderful things – from the basic slate hearts to dragons and harps to slate fans. One of my other favourites is the slate plate made by the late Mr Bill Rice for our twinning with the Slate Valley Museum in Granville New York State in 2007. It contains seven different colours of slate and shows the amazing geology and variety of slate – our local greens, greys and blues but also the vivid red of the American slate. It's also representative of the twinning, which



Yr her o farchnata adeilad hanesyddol! • The challenges of marketing a historic building!

was a highpoint for me – I still think it's wonderful that we have international links with other parts of the world and other museums.

The museum has changed a great deal since I started working here. From 30,000 visitors in 1995, we now attract 140,000! From charging an admission fee – we're now free! From closing completely over winter - we now open all year round! From having one photograph to promote the site – I now have thousands! From having no events in 1994 – we now have about nine or ten major events every year – ranging from the model railways show in February to a summer full of slate colouring and of course Hallowe'en and Santa in the winter. Crowds of people enjoy the slate splitting demonstrations, or seeing UNA in steam, or getting to know a bit more about wood with Pred the carpenter, and it's lovely to think that children from all over the world have decorated slates to take home with them from the craft activities.

Standing strong through all these developments has been the actual building itself! It's so stunning! As a marketing officer it's a double-edged sword - it's

an amazing original building and in that respect does half the work for you with people wanting to explore but it's also very imposing and at times can look a bit austere so it's quite a feat to let people know what it's all about and what's inside. But once inside... well, what a story!

I've helped to celebrate the museum's 25th, 30th and now 40th birthday. I am very lucky to work in such a place and I feel very privileged to have played a part in her history and wish her all the best for the future!



Cadi'r Curadur

Rwyf wedi bod yn gweithio fel rhan o dîm yr amgueddfa ers 13 o flynyddoedd. Nid fel Curadur y dechreuais fy ngyrfa yn yr amgueddfa, ond fel un o staff tymhorol Caffi'r Ffowntan. Roeddwn i a fy chwaer yn gweithio yn y caffi yn ystod y tymor gwyliau, ac yn ystod y cyfnod yma cynyddodd fy niddordeb yn yr amgueddfa a'i gwaith. Wedi imi raddio mewn Hanes ac Astudiaethau Addysg o'r Brifysgol ym Mangor yn 2004 gwelais hysbyseb yn y papur am swydd Curadur yn yr amgueddfa ac yn ffodus iawn i mi fe gefais y swydd.

Pan fyddai'n dweud wrth bobl mai Curadur ydw i, rhaid cyfaddef, mae llawer yn sbio'n syn arna' i - yn aml iawn am nad oes ganddynt syniad beth yn hollol yw gwaith Curadur! Buaswn yn y termau mwyaf syml yn disgrifio fy mhrif gyfrifoldeb fel 'gofal am gasgliad Amgueddfa Lechi Cymru'. Casgliad yw'r gair mae amgueddfeydd yn defnyddio i ddisgrifio'r gwrthrychau, neu'r pethau, sydd yn yr amgueddfa.

Ar yr olwg gyntaf peiriannau mawr haearn yw casgliad yr Amgueddfa Lechi. Ond, mae llawer mwy i'r casgliad na hynny. Mae ychydig dros 8,000 o greiriau yn y casgliad, ac mae'n bosibl eu rhannu'n dri chategori gwahanol:-

Yn gyntaf, rhan greiddiol y casgliad yw'r gwrthrychau a oedd ar y safle pan sefydlwyd yr amgueddfa h.y. 'fixtures and fittings' gwreiddiol y Gilfach Ddu, pethau megis yr olwyn ddŵr a'r olwyn Pelton, a'r peiriannau yn y gweithdai. Dyma'r gwrthrychau sydd yn rhoi naws wreiddiol i'r amgueddfa,

ac a ysbrydolodd pobl fel Hugh Richard Jones nol yn 1969 i sefydlu amgueddfa yn y Gilfach Ddu.

Yr ail categori o wrthrychau sydd yn ffurfio casgliad yr amgueddfa ydi'r gwrthrychau sydd wedi eu casglu dros y blynyddoedd gan staff yr amgueddfa. Mae'r gwrthrychau yma

yn adeiladu ar y casgliad creiddiol gan eu bod yn wrthrychau o wahanol ardaloedd o Gymru. Gan mai 'Amgueddfa Lechi Cymru' ydym mae gennym ddyletswydd i geisio adlewyrchu pwysigrwydd y diwydiant drwy'r wlad, ac nid dim ond Llanberis a Chwarel Dinorwig. Mae'r gwrthrychau yma yn amrywiol iawn, pethau megis Una injan stem oedd yn gweithio'n wreiddiol yn Chwarel Penyrsedd, Dyffryn Nantlle, neu beiriant cloddio 'Smith Rodley' o Chwarel Dŵr Oer, Blaenau Ffestiniog.

Y trydydd categori o wrthrychau sy'n ffurfio casgliad yr amgueddfa ydi'r gwrthrychau sydd yn dodrefnu Fron Haul a Thŷ'r Peiriannydd. Mae'r gwrthrychau yma yn amrywiol iawn gan fod y tai wedi eu dodrefnu fel eu bod o gyfnodau a lleoliadau gwahanol.

Y casgliad gwrthrychau ydi craidd unrhyw amgueddfa, heb y casgliad tydi amgueddfa ddim gwahanol i unrhyw atyniad ymwelwyr arall. Mae'r gwrthrychau yma'n symbolau hanesyddol sydd yn cynrychioli ein hanes i'r genhedlaeth sydd i ddod. Mae amgueddfeydd yn llefydd byrlymus sydd yn cynnig pob math o weithgareddau a phrofiadau i ymwelwyr e.e. ffilmiau, arddangosfeydd, sgysiau a theithiau, a gweithgareddau amrywiol i blant. Ond craidd hyn i gyd ydi'r casgliad gwrthrychau - heb y gwrthrychau ni fydda na amgueddfa. Mae gwaith Curadur yn bwysig felly oherwydd y person yma sydd â gofal dros y casgliad.

Prif waith unrhyw Guradur ydi parhau i dderbyn gwrthrychau newydd i'r casgliad, a chwblhau gwaith dogfennu angenrheidiol. Ond, mae gwaith Curadur yn yr Amgueddfa Lechi yn golygu llawer mwy na dogfennu. Mae'r gwaith yn amrywiol dros ben - o ateb ymholiadau i lanhau

creiriau megis y casgliad patrymau pren; o wneud ymchwil ar gyfer arddangosfeydd i gynnal sgysiau gyda'r nos i grwpiau megis Merched y Wawr; o arwain teithiau tywys i ofalu am lyfrgell yr amgueddfa. Mae'r rhestr yn ddi ben draw a dweud y gwir, a dyna beth sydd yn arbennig am weithio yn yr amgueddfa, yr amrywiaeth. Does dim un diwrnod yn debyg i'r un blaenorol, ac mae rhywbeth braf iawn am hynny!

Yn yr wyth mlynedd yr ydw i wedi bod yn fy swydd rwyf wedi bod yn rhan o bob math o brosiectau gwahanol. Ymysg y pethau sydd yn sefyll allan yn fy nghof yw'r gwaith o gasglu'r Rotary Converter o Chwarel Llechwedd ac adfer y locomotif batri. Rwyf hefyd wedi mwynhau gweithgareddau adeiladau tîm megis ein taith ar gwch gamlas a'n hanturiaethau ar y cwrs rhaffau uchel!

Roedd y gwaith a wnaethpwyd gennym fel tîm yn ôl yn 2009 i goffáu deugain mlynedd ers cau Chwarel Dinorwig yn arbennig iawn. Roedd cynnal diwrnod casglu atgofion, cynhyrchu'r arddangosfa, trefnu cyngerdd mawreddog, comisiynu a llwyfannu drama a threfnu teithiau tywys yn dangos pa mor amrywiol yw gwaith amgueddfa ac yn bwysicach yn enghraifft o sut mae gweithio fel tîm yn sicrhau bod unrhyw beth yn bosibl!

Rydw i'n teimlo'n ffodus iawn fy mod yn gweithio yn yr Amgueddfa Lechi. Rwyf yn trysori'r atgofion o weithio yn y caffi dan arweiniad Mairwen - pum mlynedd yn llawn hwyl, chwerthin, a gwaith caled - ysgol brofiad go iawn! Ac yna, wyth mlynedd o ddatblygu fy ngyrfa, a chael pob math o brofiadau difyr a heriol. Edrychaf ymlaen at beth sydd gan y dyfodol i'w gynnig imi a'r amgueddfa, a phwy a wŷr efallai y byddaf yma'n dathlu pen-blwydd yr amgueddfa yn wyth deg!



Cadi Iolen



Rhan o'r broses o ddogfennu patrymau pren
Documenting the woodern pattern collection

Cadi the Curator

I have been working as part of the museum team for 13 years. It wasn't as Curator that I started my career in the museum, but as a member of the staff of Caffi'r Ffowntan. My sister and I worked in the café during the holiday season, and it was during this period that I began to take a greater interest in the museum and its work. After graduating from Bangor University in 2004 in History and Educational Studies, I saw the Curator's job being advertised in the newspaper and was fortunate enough to be appointed.

When I tell people that I'm a Curator, I get many a strange look - more often than not, because many people haven't got a clue what a Curator does exactly! I would describe my main responsibility, in the simplest terms as 'looking after the National Slate Museum's collection'. Collection is the word used by museums to describe the objects, or things, housed by the museum.

At first glance, it would appear that the Slate Museum's collection comprises large iron machines. But there is much more to the collection than that. There are a little over 8,000 artefacts in the collection, which can be divided into three separate categories:-

Firstly, the core element of the collection is the objects that were on the site when the museum was established i.e. the original fixtures and fittings of Gilfach Ddu, such as the water wheel and the Pelton wheel, and the machines in the workshops. These are the objects that give the museum its air of authenticity and which inspired people such as Hugh Richard Jones back in 1969 to establish a museum in Gilfach Ddu.

The second category of objects forming the collection relates to those collected over the years by the museum staff. These objects build on the core collection because they come from various districts of Wales. As we are the 'National Slate Museum' we are duty bound to attempt to reflect the importance of the industry throughout Wales, not just of Llanberis and Dinorwig Quarry. These objects are very diverse, for example, Una, the steam engine which originally operated in Penyrsedd Quarry, Dyffryn Nantlle, or the 'Smith

Rodley' excavating machine from Dŵr Oer Quarry, Blaenau Ffestiniog.

The third category of objects forming the collection is those objects used to furnish Fron Haul and the Engineer's House. These are also very varied as the houses have been furnished to reflect different periods and locations.

The objects collection is at the heart of any museum; without a collection a museum is no different to any other visitor attraction. The objects are historical symbols which explain our history to future generations. Museums are vibrant places which offer all kinds of activities and experiences to visitors e.g. films, exhibitions, talks, tours and various activities for children. But central to all this is the objects collection - without the objects there would be no museum. The work of the Curator is vital therefore, because it is this person who is in charge of the collection.

The main task of any Curator is to continue to receive new objects to enhance the collection, and complete the necessary documentation. However, the Curator's work in the Slate Museum involves much more than documenting. The work is extremely varied from responding to enquiries to cleaning artefacts such as the wooden patterns; from research work for exhibitions to giving evening talks to groups such as the Women's Institute; from leading guided walks to looking after the museum library. The list is never-ending and, to tell the truth, that's what's so special about working in the museum, the variety. No day is similar to the previous one,



Diwrnod hel atgofion yn yr amgueddfa
Memories day at the museum

Without the objects there would be no museum



and that's something to be savoured!

In the eight years that I have been in my job I have been involved in projects of all kinds. Some of the particularly memorable events include collecting the Rotary Converter from Llechwedd Quarry and the restoration of the battery locomotive. I've also enjoyed team building activities such as our trip on a canal boat and our adventures on the aerial ropeway course! The work that we did as a team in 2009 to commemorate forty years since the closure of Dinorwig Quarry was very special. Holding a memories day, creating the exhibition, organising the concert, commissioning and staging a play and organising guided tours indicate how diverse museum work is, and, more importantly, it is an example of how team working makes anything possible!

I feel very fortunate to be working in the Slate Museum. I treasure the memories of working in the café under the guidance of Mairwen - five years of fun, laughter, and hard work - a real school of life! And then eight years of developing my career, and engaging with a wide range of enjoyable and challenging experiences. I look forward to what the future has to offer me and the museum, and who knows, perhaps I'll be here celebrating the museum's eightieth birthday!

Addysg Heddiw

Pwy 'sa'n meddwl y bysa na gymaint o bosibiliadau addysgol wrth drafod llechi?! Doeddwn i'n sicr fawr o feddwl cyn cychwyn ar fy swydd yn 2006, faint o gyfoeth oedd o fewn muriau'r Gilfach Ddu.

Un peth fyddai'n drio gyfleu i ysgolion ydy bod cymaint mwy i'w weld a'i wneud yma na'r cynnig arferol. Wrth reswm, yr atyniadau pennaf ydy'r arddangosiad hollti a naddu unigryw, tai Fron Haul a'r olwyn ddŵr...ond mae cymaint mwy!

Ers 2008, mae Pred y saer, yn cynnig 'Y Lôn Goed', taith dywys ddifyr sy'n mynd ar drywydd trawsnewidiad coed Stad y Faenol i'r patrymau pren rhyfeddol welwch chi yn y Llofft Batrwm. Yn ddiweddar, mae Elfyn wedi addasu ei 'Sgwrs am Stêm' i ddisgyblion ysgol - maent wrth eu boddau yn cael gweld Una yr injan yn chwythu stêm ac yn cael clywed ei hanes. 'Da ni hefyd wedi atgyfodi taith Chwarel Vivian, er mwyn mynd â chriwiau at y graig ac at y gwalia i drio cyfleu y gwaith oedd yn digwydd yno. Y peth braf ydy cael cymaint o staff gwybodus i droi atyn nhw!

A does dim rhaid i chi fod yn astudio hanes i ddod yma - mae digon o gyfleodd i weld gwyddoniaeth ar waith hefyd. Dyfeisgarwch y bobl oedd yn gweithio yma sy'n fy rhyfeddu i

dro ar ôl tro - os oedd 'na her roedden nhw'n ymateb iddi, os oedd na broblem, roedden nhw'n ffeindio'r ateb. A dan ni, yn y byd modern, yn meddwl mai ni sydd wedi creu'r cysyniad o gynladwyedd - does dim ond raid i chi sbio ar yr olwyn ddŵr, oedd yn gyrru'r holl beiriannau yma, a'r inclen, oedd yn defnyddio disgyrchiant i gludo llechi, i wybod nad ydy hyn yn wir.

Mae'n braf cael bod yn rhan o dîm ar y safle, ond hefyd yn rhan o dîm o swyddogion addysg ar draws safleoedd Amgueddfa Cymru, er mwyn gallu rhannu profiadau a syniadau, er mor wahanol eu nawys yw'n hamgueddfeydd i gyd.

Peth braf arall ydy cael trefnu gweithdai ar thema penodol lle bydd actorion, beirdd, neu artistiaid yn dod yma i gynnal sesiynau gyda disgyblion ysgol. Roedd gweithdy Diwrnod Golchi wedi ei hen sefydlu cyn imi gyrraedd - mae plant dal i fwynhau cael tro ar y mangl, y bwrdd sgwrio a'r twb a doli yng nghwmni Anti Margiad, sy'n byw yn yr hen drefn. Mae Rhian Cadwaladr, yr actores, yr un mor boblogaidd heddiw ag yr oedd hi pan ddechreuodd hi yn y nawdegau!

Gweithdy poblogaidd arall a sefydlwyd cyn f'amser i oedd y gweithdy barddoniaeth a arweinwyd gan amlaf gan Mei Mac a'r diweddar Iwan Llwyd. Am brofiad - cael bod yng nghwmni prifeirdd! Ers hynny, mae gweithdai rap, gweithdai celf a gweithdai ffotograffiaeth wedi cael eu cynnal yma.

O ran rhaglennu, mae dipyn go lew o benryddid

gen i, ond wrth gwrs rhaid ymateb i raglen Llywodraeth Cymru hefyd, sy'n ein hariannu. Mae pwyslais wedi bod ar weithio gydag ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf - eleni bûm yn ardal Blaenau Ffestiniog yn cynnal prosiect ffilm, celf a ffotograffiaeth i gyd-fynd â'n dathliadau yn ddeugain oed.

Mae gwaith y bobl ifanc, yn ogystal â phrosiectau addysg eraill, i'w gweld yn arddangosfa Dathlu'r Deugain eleni.

Dileu tlodi plant yw un o amcanion y llywodraeth yn y blynyddoedd nesa' a bydd rhaid imi feddwl am brosiect fydd yn gwneud wir wahaniaeth i fywydau plant mewn angen yn yr ardal hon. Hmmm...

A nid plant yn unig sy'n dysgu wrth gwrs - dwi'n gyfrifol am addysg gydol-oes hefyd. Llynedd un o'r uchafbwyntiau i mi oedd trefnu i'r staff gymryd rhan yn Wythnos Dysgu i Oedolion, lle cafodd pawb gyfle i greu camera twll-pin a thynnu lluniau o gwmpas y safle - roedd y canlyniadau'n wych a phawb wedi mwynhau!

Byddaf yn creu taflenni a llyfrynau o bryd i'w gilydd hefyd - yr un diweddarar' yw'r daflen weithgareddau sydd yn y caffi, ar y thema o fwyd a diod. Chewch chi'm panad yma hyd yn oed heb ddysgu rhywbeth!

Dwi yn grediniol bod addysg yn greiddiol i brofiad bob un sy'n dod trwy ddrysau'r amgueddfa - ddim fel cyn-athrawes(!) - ond fel rhywun sy'n credu bod dysgu rhywbeth newydd pob dydd yn cadw'n meddylia' ni'n ifanc a bod cadw peth o syfrdan plentyn wrth brofi'r byd yn gwneud lles i ni. Yn sicr mae'r waw-ffactor i'w gael yma yn yr amgueddfa a dwi dal i ddysgu am y lle pob dydd.



Elen Roberts

*'Dwi'n credu
bod dysgu
rhywbeth
newydd pob
dydd yn
cadw'n
meddylia'
ni'n ifanc'*

Education Today

Who would have thought that slate could offer so much educational potential? I certainly didn't realise, before starting at the museum in 2006, how much wealth there was within the walls of Gilfach Ddu.

One thing I always try to convey to schools is that there's much more to see and do here than the standard offer. Obviously, the main attractions are the unique slate-splitting demonstrations, the Fron Haul quarrymen's houses and the water wheel - but there's so much more!

Since 2008, Pred the carpenter has been offering a fascinating guided tour, 'What's Wood Got To Do With It?', following the metamorphosis of the Faenol estate trees to the intricate wooden patterns that can be seen in the Pattern Loft. Recently, Elfyn has adapted his 'Introduction to Steam' for school pupils - they love seeing Una the engine in steam and hearing about her history. We've also re-established the Vivian Quarry tour, taking groups to the rockface and the slate-splitting sheds to try to convey the work that would have happened there. The luxury is having knowledgeable staff to turn to!

And you don't have to be studying history to come here - there are plenty of opportunities to see science at work. What amazes me time after time is the inventiveness of the people who worked here - if there was a challenge, they'd rise to it, if there was a problem they'd find a solution to it. We, in the modern world, sometimes think that we've created the concept of sustainability - you only have to look at the water wheel, which powered so many of the machines here, and the incline, which used gravity to transport slate - to know that this is simply untrue.

It's great being a part of a team on-site, but also part of a team of education officers across Amgueddfa Cymru - National Museum Wales sites, to share experiences and ideas, however different all our museums are.

It's also great to be able to organise workshops on particular themes and invite actors, poets, or artists to facilitate sessions with school pupils. The Washday Workshop was established long before I arrived and children still enjoy having a go at the mangle, the washboard and the tub and dolly under the watchful eye of Aunty Margiad, the Victorian washerwoman. Rhian Cadwaladr, the actress, is as popular today as she was when she started in the nineties!

Another popular workshop established before my time were the Welsh poetry workshops, led more often than not by Mei Mac and the late Iwan Llwyd. What a wonderful experience - writing poetry with two such experienced poets! Since then, rap workshops, art workshops and photography workshops have also been held here.

I have quite a lot of freedom when it comes to programming, but also have to respond to the Welsh Government's priorities for education, as they are responsible for funding the museum. Working with Communities First areas has been encouraged - this year, I organised a film, art and photography project in Blaenau Ffestiniog to coincide with our 40th celebrations. The young people's work, as well as the other educational projects, can be seen in the Fab 40 exhibition.

Eradicating child poverty is one of the government's main objectives in the years to come and I will need to think of a project which will make a real difference to the lives of children in need in this area. Hmmm...

It isn't children only that learn, of course - I'm also responsible for lifelong learning. One of last year's



Gweithdy 'Diwrnod Golchi', 2012
'Washday' Workshop, 2012


highlights for me was getting the staff to take part in the Adult Learner's Week, when every one of us created a pin-hole camera and took photos with it around the museum - the results were fantastic and everyone enjoyed themselves!

I also create leaflets and booklets from time to time - the latest is the activities leaflet which is in the café, on the theme of food and drink. You can't even have a cuppa here without learning something! I strongly believe that learning is core to the experience of every one who comes through the museum's doors - not as an ex-teacher(!) - but as someone who believes that learning something new each day keeps our minds young and that experiencing the world with some of the amazement of a child does us good. The wow-factor is certainly to be had here at the museum and I'm still learning about the place every day.

*'I believe that
learning something
new each day
keeps our
minds young'*



Gwobrau addysgol diweddar
Recent educational awards



Ffotograff 'twll pin' - 'Pin hole' photograph



Ffrindiau ar draws y dŵr

Friends across the pond

Ar 19 Mai 2007, dathlwyd 'gefeillio' yr amgueddfa gyda Slate Valley Museum yn Granville, Talaith Efrog Newydd, gan amlygu y cysylltiadau hanesyddol a diwylliannol pwysig rhwng cymunedau chwarelyddol gogledd Cymru â'r cymunedau hynny yn ardal llechi UDA.

O'r 1860au hyd at y 1920au, pan oedd arian yn brin yn ardaloedd chwareli Cymru, mudodd miloedd o chwarelwyr Cymraeg i'r Unol Daleithau â'i bryd ar fywyd gwell yn Granville ac ardaloedd eraill UDA.

Roedd yr egin-ddiwydiant llechi Americanaidd yn frwd dros recriwtio ymfudwyr o Gymru, oedd â'r profiad a'r medrusrwydd i wneud yn fawr o haenau llechi gwerthfawr y dyffryn.

'Daeth y Cymry â'u teuloedd, eu harferion a'u traddodiadau gyda hwy. Drwy hyn, cawsant ddylanwad grymus, nid yn unig ar y diwydiant llechi yn America ond hefyd ar wead cymdeithasol y trefi hynny y bu iddynt ymgartrefu ynddynt.' (Mary Lou Willits)

Cychwynwyd ar y broses o ddod â'r ddwy amgueddfa ynghyd yn 2004, drwy ohebiaeth rhwng Ceidwad Amgueddfa Lechi Cymru, Dr Dafydd Roberts â Chyfarwyddwraig Slate Valley Museum, Granville, Mary Lou Willits.


Yn 2006, penderfynwyd ffurfioli'r berthynas a gefeillio'r ddwy amgueddfa. Cychwynwyd apêl gan y ddwy amgueddfa i geisio darganfod mwy am y rhai hynny adawodd Cymru er mwyn ceisio bywyd gwell draw dros y don ac i ofyn i bobl o'r ddwy wlad am eu cysylltiadau teuluol gyda'r rhai hynny a fudodd. Ym Mehefin 2006, teithiodd Dr. Dafydd Roberts a Mike Houlihan, Cyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfa Cymru i Granville er mwyn mynychu'r cyntaf o'r seremonïau gefeillio yn y Slate Valley Museum. Yn 2007, daeth Mary Lou Willits i'r seremoni gefeillio a gynhaliwyd yn Amgueddfa Lechi Cymru.

Datblygwyd y cysylltiad ymhellach yn 2008, pan fenthycwyd cist gan y Slate Valley Museum i'r Amgueddfa Lechi ar gyfer arddangosfa 'Draw Dros y Don'. Perchnogion gwreiddiol y gist



Disgynyddion John a Mary Davies gyda'r gist John and Mary Davies' descendants with the trunk

oedd John a Mary Davies, Bethesda a fudodd o Lerpwl i'r Unol Daleithau ar Fedi'r 3ydd 1904. Roedd yn symbol grymus o'r holl straeon personol a gasglwyd yn ystod yr apêl a'r cwlwm tynn rhwng y ddwy amgueddfa.



Dafydd Roberts & Mary Lou Willits

On 19 May 2007, the museum celebrated its 'twinning' with the Slate Valley Museum in Granville, New York State, highlighting the significant cultural and historical ties between the slate quarrying communities of north Wales and those of the slate region in the USA – known as the slate belt.

From the 1850's through to the 1920's, when money was tight in the quarrying areas of north Wales, thousands of Welsh quarrymen moved to the United States to look for a better life in Granville and other parts of the USA. The fledgling American slate industry was eager to recruit Welsh migrants who had the experience and skill to exploit the valuable slate seams of the valley.

'The Welsh brought with them their families, customs, and traditions. In doing so, they had a profound impact not only on the slate industry in America but also the social structure of the towns in which they settled.' (Mary Lou Willits)

The process of bringing the two museums together began in 2004 via correspondence between the National Slate Museum's Keeper, Dr Dafydd Roberts and the Director of the Slate Valley Museum in Granville, Mary Lou Willits.

In 2006, it was decided to formally 'twin' the museums together. Both museums launched an appeal to find out more about those who left Wales to look for a better life across the ocean and to ask people from both countries about their family connections with people who had emigrated. In June 2006, Dr Dafydd Roberts and Mike Houlihan, the Director General travelled to Granville to attend the first of the twinning ceremonies at the Slate Valley Museum. In 2007, the National Slate Museum held its twinning ceremony, attended by Mary Lou Willits of the Slate Valley Museum.

The link was further developed in 2008, when a trunk was lent by the Slate Valley Museum to the National Slate Museum for the 'American Dreams' exhibition. The trunk belonged originally to John and Mary Davies, Bethesda who emigrated from Liverpool to the USA on Sep 3rd 1904. It served as a powerful symbol, reflecting the personal, poignant stories that came to light during the appeal as well as the strong ties forged between both museums.

Penblwydd Hapus Llechwedd - yn 40 hefyd!

Happy 40th Birthday to Llechwedd too!

'Chwaraal Fyw'

Cychwynnais i weithio'n Llechwedd yn ddeunaw oed fel junior clerk a mi orffenis i yna 52 o flynyddoedd wedyn yn gadeirydd ar y busnes i gyd.

Roeddan ni'n sylwi bod 'na bobl yn dŵad at y drws ffrynt i'r swyddfa a gofyn 'sa nhw'n cael mynd o gwmpas y chwaraal a ddaru ni feddwl, os 'dyn nhw'n dod yma ar ddamwain heb i ni gael rhywfaint o siâp, be' am i ni 'neud o'n iawn? Os oes gan bobl

ddiddordeb sut mae pobl yn byw, oes ganddyn nhw diddordeb sut mae pobl yn gweithio? Dyna gychwyn y peth rhywsut.

Dwi'n meddwl yn y cychwyn bod 'na ddipyn o fraw bod pobl yn barod i ddod i weld chwaraal, achos oedd nhw 'di arfar efo chwaraal yn Blaenau' a doedd nhw'm yn meddwl 'sa pobl yn cymryd y traffarth i ddod i weld un.

Roedd angen penderfynu lle yn y chwaraal i fynd â nhw ac wrth gwrs roedd gan yr Inspector of Mines diddordeb arbennig iawn. Dwi 'di credu 'rioed y dylai pobl gael profiad o ddod i bart o chwaraal fyw, mae hynna 'di bod yn bwysig iawn, os oedd 'na daniad ar y graig yn rwla, i rywun gael teimlo'r ysgwydfa 'de.

Mi oedd rhan fwyaf o'r staff cyntaf yn gyn-weithwyr yn y chwaraal. Chwarelwyr, un ai wedi cael eu tynnu lawr o'r chwaraal am bod y gallu i siarad gynddyn nhw neu rhai wedi ymddeol, yn dod yn ôl i weithio i'r ochr twristiaeth efo'u profiad chwaraal.

Mae yna filoedd o bobl wedi mwynhau eu hunain yna ac erbyn rwan 'dan i'n gwneud priodasau. Dwi'n cofio ni'n cael y sgowts yn dod acw 'fyd, pum mil ar hugain ohonyn nhw a'r sgowt mastar ei hun yn dod efo helicoptar.

Roedd amryw o bobl yn deud 'We didn't know there was still a quarry here, we thought all this was tourism', ac o'n i'n deud na chwaraal fyw ydi hi, a mae hynna 'di bod yn bwysig iawn.

Hefin Davies
(Cadeirydd Llechwedd)

'Y Dyfodol'

Mae'r byd yn newid a dan ni'n medrach i gal petha' eraill ar y safle. Dan ni'n gweithio'n agos iawn efo Antur Stiniog. Mae De Gwynedd yn mynd i fod yn Centre of Excellence a ma' gynnyn nhw'r safle Extreme Downhill Mountain Biking yn Llechwedd 'ma. Fydd hynny'n dod â pobl i mewn 'leni, blwyddyn y dathlu.

Fydd rhaid i'r lle newid yn y dyfodol, dwi'n credu, oherwydd mae'r

bobl sy'n gweithio yma'n wahanol i'r bobl oedd yma'n y 70au. Dydy'r hen griw ddim gynnon ni rwan – mae pobl sy'n gweithio'n Quarry Tours heddiw yn gorfod dysgu popeth am chwaraal; mae nhw'n dod yma i

weithio o ddiwydiant arall, 'dyn nhw'm yn gwybod gystal ella ag oedd y dynion yn y 70au. Mae gofynion ymwelwyr yn newid pob blwyddyn hefyd.

Dwi yn credu bydd yr atyniad sydd yma o fynd o dan y ddaear i weld yr agorydd yn parhau. Dyna sy'n gwneud Llechwedd yn unigryw ac yn wahanol i bob man arall – allan ni werthu hynna i'r dyfodol.

Andrew Roberts
(Rheolwr Gyfarwyddwr Llechwedd)

'A Living Quarry'

I began working in Llechwedd at eighteen years of age as a junior clerk and finished there 52 years later as chairman of the whole business.

We noticed that people would come to the front door to the office and ask if they could have a look around the quarry and we thought, if they come here by chance when we've got nothing much to offer, what about doing it properly? If the public are interested in how people live, are they interested in how people work? And that's how it all started.

I think that at the start we were a bit taken aback that people were prepared to visit a quarry; because we were so used to the quarry in Blaenau we didn't think other people would want to come and see it.

We had to decide where to take them in the quarry and, of course, the Inspector of Mines had a particular interest. I've always believed that people should experience what happens in a living quarry, this has been very important – if there's blasting on the rock somewhere they should feel the ground shaking.

The majority of the initial staff were former workers at the quarry. They were either quarrymen who were redeployed because of their ability to communicate or retired quarrymen brought back to work on the tourism side because of their quarrying experience.

Thousands of people have enjoyed themselves here and we host marriages now. I remember the scouts coming here too, twenty five thousand of them, and the scout master himself arriving by helicopter.

Many of them would say 'We didn't know there was still a quarry here, we thought all this was tourism', and I'd tell them it was a working quarry – that's been very important.

Hefin Davies
(Llechwedd Chairman)

'The Future'

The world is changing and we're considering other options for the site. We're working very closely with Antur Stiniog. South Gwynedd is going to be a Centre of Excellence and the Extreme Downhill Mountain Biking site is here in Llechwedd. That will bring in visitors this year, the celebration year.

The site will have to change in the future I think, because the people working here are different to those who were here in the '70s. The old crew have gone – those working for Quarry Tours today have to learn everything about the quarry; they come here to work from other industries and they don't know as much as the men in the '70s. The requirements of visitors change every year also.

I believe that the attraction of going underground to see the chambers will continue. This is what makes Llechwedd unique and different to everywhere else – we can sell this feature to succeed in the future.

Andrew Roberts
(Managing Director of Llechwedd)

Dathlu 40 mlynedd o bartneriaeth

Roland Evans

Uwch Reolwr Economi a Chymuned
Cyngor Gwynedd

Ers ei sefydlu ym 1972, mae cydweithio wedi bod yn greiddiol i lwyddiant a datblygiad yr Amgueddfa Lechi. Pan ddaeth cwmp Stad y Faenol a'r chwarel yn 1969 bu rhaid i Gyngor Sir Gaernarfon wneud penderfyniad ar frys a phrynu tua 160 acer o dir oedd yn perthyn i'r hen chwarel - gan gynnwys y gweithdai a nifer o'r peiriannau oddi mewn iddynt; lle lleolir yr amgueddfa a Pharc Padarn heddiw. Roedd y pryniant yn cynnwys Ysbyty'r Chwarel a'r hen swyddfeydd, Chwarel Vivian a'r adeiladau cysylltiedig, Coedlan Allt Wen a darn sylweddol o dir ger y llyn o amgylch y gweithdai.

Bwriad Cyngor Sir Caernarfon ar y pryd oedd diogelu'r safle a datblygu Amgueddfa Archeoleg Diwydiannol. Roedd hwn yn gam beiddgar a mentrus yn yr oes honno ac roedd datblygiad yr un mor fentrus hefyd yn cymryd lle nepell yn Llechwedd, Blaenau Ffestiniog.

Gwnaethpwyd y pryniant yn dilyn cytundeb gyda'r 'Ministry of Public Building and Works' a'r Swyddfa Gymreig eu bod yn cymryd cyfrifoldeb llwyr dros y safle a'r creiriau trwy les tymor hir. Gwnaethpwyd y pryniant ym 1970 ac fe agorwyd y safle fel Amgueddfa Chwaredyddol Gogledd Cymru ym 1972.

Erbyn hyn, mae Parc Padarn a'r Amgueddfa Lechi wedi hen ennill eu plwy fel atyniadau twristiaeth treftadaeth o safon sy'n denu cannoedd o filoedd o ymwelwyr bob blwyddyn. Yn wir, mae diddordeb cynyddol i'w weld yn ein treftadaeth diwydiannol ac mae'r camau mentrus a gymerwyd gan Gyngor Sir Caernarfon a'r Llywodraeth ar y pryd wedi sicrhau bod y treftadaeth pwysig hwn wedi ei ddiogelu ar ein cyfer heddiw ac i'r dyfodol.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae nifer o gynlluniau cyffrous ar y gweill i ddatblygu ymhellach y cyfleon gall treftadaeth chwaredyddol y sir ei gynnig i drigolion ac i ymwelwyr.



Prosiect 'Ein Treftadaeth'

Mae hwn yn brosiect gwerth £1.7m sy'n cael ei arwain gan Gyngor Gwynedd fydd yn datblygu twristiaeth treftadaeth yng Ngwynedd a Chonwy. Bydd gwerth tua £500,000 o'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar weithgareddau i ddatblygu treftadaeth y diwydiannau llechi. Yn yr ardal hon, y bwriad yw ail-ddehongli Parc Padarn, ail-ddehongli a datblygu Amgueddfa'r Ysbyty Chwarel a gwella cysylltiadau ymysg prif bartneriaid Parc Padarn gan gynnwys yr Amgueddfa Lechi a Rheilffordd Llyn Padarn.

Safle Treftadaeth y Byd Diwydiannol Llechi Gogledd Cymru

Mae Diwydiannol Llechi Gogledd Cymru bellach ar restr fer y DU ar gyfer dynodiad Safle Treftadaeth y Byd UNESCO - statws sy'n cael ei roi i rai o safleoedd treftadaeth pwysig a byd. Mae hon yn dipyn o gamp a bydd gwaith yn mynd rhagddo dros y ddegawd nesaf i geisio sicrhau'r statws pwysig ac anrhydeddus hwn i Wynedd.

Partneriaeth Llechi Cymru

Partneriaeth yw hon sy'n tynnu'r prif ran-ddeiliad o'r diwydiannau llechi, neu ddiwydiannau cysylltiedig, at ei gilydd i rannu profiadau ac i gefnogi a hyrwyddo sector sydd mor bwysig i economi, treftadaeth, diwylliant, cymunedau ac amgylchfyd y sir. Bydd gan y bartneriaeth ran bwysig iawn i'w chwarae wrth ddatblygu cais Safle Treftadaeth y Byd.

Mae gweithio mewn partneriaeth wedi bod yn greiddiol i lwyddiant yn y gorffennol a bydd cydweithio hefyd yn hanfodol yn y dyfodol er mwyn gwarchod, datblygu a dehongli ein treftadaeth diwydiannol unigryw a phwysig i drigolion Gwynedd ac i ymwelwyr â'r sir.

Llongyfarchiadau i'r Amgueddfa Lechi ar gyrraedd y garreg filltir bwysig hon. Edrychaf ymlaen at barhad ein partneriaeth ac at weld ffrwyth ein gwaith dros y 40 mlynedd nesaf.

Celebrating 40 years of partnership

Roland Evans

Senior Manager Economy and
Community Gwynedd Council

Since its establishment in 1972, collaboration has been central to the success and development of the Slate Museum. With the demise of the Vaynol Estate and the quarry in 1969, Caernarvonshire County Council had to make an urgent decision and buy approximately 160 acres of land that belonged to the old quarry - including the workshops and a number of the machines they housed, where the museum and Parc Padarn are located today. The purchase included the old Quarry Hospital and Offices, Vivian Quarry and the associated buildings, Allt Wen woods and a substantial piece of land by the lake around the workshops.

At the time, Caernarvonshire County Council intended to preserve the site and develop an Industrial Archaeology Museum. This was a bold and enterprising scheme in that period and there was an equally venturesome development not far away in Llechwedd, Blaenau Ffestiniog.

The purchase was made following an agreement with the Ministry of Public Building and Works and the Welsh Office that they would assume full responsibility for the site and the artefacts via a long-term lease. The purchase was finalised in 1970 and the site opened as the North Wales Quarrying Museum in 1972.

By today, Parc Padarn and the Slate Museum are well-established, quality tourist heritage attractions which attract hundreds of thousands of visitors each year. Indeed, there is an increasing interest in our industrial heritage and the enterprising actions of Caernarvonshire County Council and the Government at the time have ensured that this important heritage has been safeguarded for present and future generations.

Looking to the future, there are a number of exciting plans to further develop the opportunities that the quarrying heritage of the county offer both local people and visitors.



Chwarel Dinorwig – Dinorwig Quarry

The 'Our Heritage' Project

This £1.7m project is being led by Gwynedd Council and aims to develop heritage tourism in Gwynedd and Conwy. Approximately £500,000 of this project focuses on activities to develop the legacy of the slate industry. In this area, the aim is to reinterpret Parc Padarn, reinterpret and develop the Quarry Hospital Museum and improve links between the main Parc Padarn partners, including the Slate Museum and Llanberis Lake Railway.

North Wales Slate Industry World Heritage Site

The North Wales Slate Industry is now on the UK shortlist for a UNESCO World Heritage Site designation, a status given to the most important heritage sites in the world. This is a considerable achievement and work will continue over the next decade in an attempt to secure this prestigious status for Gwynedd.

Wales Slate Partnership

This partnership draws together the main stakeholders from the slate industry, and associated industries, to share experiences and to support and promote a sector which is of the utmost importance to the economy, heritage, culture, communities and environment of the county. The partnership will play a key part in developing the World Heritage Site application.

Working in partnership has been central to success in the past and collaboration will also be essential in the future to preserve, develop and interpret our unique and important industrial heritage for the people of Gwynedd and visitors to the county.

Congratulations to the Slate Museum on achieving this important milestone. I look forward to the continuation of our partnership and to seeing the fruits of our labour over the next 40 years.

Did you know...? Did you know...? Deddech chi'n gwylod...?



Mae mwy o ferched na dynion yn gweithio yn yr amgueddfa bellach

By today, more women than men work at the museum.

Roedd tai Fron Haul wedi eu lleoli'n wreiddiol yn Nhamygrisiau, ger Blaenau Ffestiniog.



The Fron Haul houses were originally situated in Tamygrisiau, near Blaenau Ffestiniog.

Mae nifer o wynebau adnabyddus wedi ymweld drws y blynyddoedd - gan gynnwys Angelina Jolie, Fred Dibnah a'r Tynwysog Charles!

Many famous people have visited the museum over the year - including Angelina Jolie, Fred Dibnah and Prince Charles!

Wyddoch chi fod y rhan fwyaf ohonom yn defnyddio llechfaen bob dydd? Mae llwch llechfaen yn cael ei ddefnyddio mewn past dannedd!

Did you know that most of us use slate every day? Slate dust is used in toothpaste!

Mae drws 1,200 o galonau llechi yn cael eu gwerthu bob blwyddyn yn siop yr amgueddfa.



Over 1,200 slate hearts are sold every year in the museum shop.

Credir bod peiriant doddio'r 'Smith Rodley' wedi cael ei ddefnyddio i glwio wlael yn ystod y Blitz yn Llundain.



It is thought that the 'Smith Rodley' excavator was used to clear rubble in London during the Blitz.